Ffocws ar chwarae

Chwarae a theithio llesol

Mae'r papur briffio hwn ar gyfer timau trafnidiaeth, cynllunio, priffyrdd, iechyd y cyhoedd a chwarae awdurdodau lleol, yn ogystal ag aelodau etholedig. Mae'n ystyried sut gall teithio llesol gefnogi hawl plant i chwarae, a sut gall ffocws cryf ar chwarae helpu i greu llwybrau cerdded, olwyno a beicio sy'n gweithio'n well ar gyfer plant, teuluoedd a chymunedau.

Mae'r papur briffio yn cefnogi adran Chwarae pennod Creu Lleoedd *Canllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol*, sy'n annog agwedd 'Chwarae ar y Ffordd'. Mae 'Chwarae ar y Ffordd' yn agwedd sy'n eiriol dros integreiddio chwarae fel rhan o, ac o amgylch, llwybrau cerdded, olwyno a beicio.



Pam fod chwarae a theithio llesol yn perthyn gyda'i gilydd

Mae cael cyfleoedd i chwarae'n rhan hanfodol o blentyndod iach a hapus. Mae'n cyfrannu at les corfforol, meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol plant ac yn cefnogi eu hymdeimlad o gysylltiad â'r mannau ble maent yn byw. Pan fydd canllawiau teithio llesol yn cael eu gweithredu gan ystyried chwarae plant, gall helpu i greu cymdogaethau ble mae plant yn weladwy, yn teimlo bod croeso iddynt a'u bod yn gallu mwynhau cyfleoedd bob dydd i chwarae.

Mae cyfleoedd plant i chwarae'n cael eu llunio a'u dylanwadu gan ddyluniad a rheolaeth tir y cyhoedd. Mae lefelau traffig, cyflymder cerbydau, ansawdd y palmant, croesfannau diogel, goleuo, mannau i eistedd, seilwaith gwyrdd a mynediad i fannau anffurfiol i gyd yn effeithio ar os gall plant fynd allan, cwrdd â ffrindiau a chwarae'n agos i'w cartrefi.

Mae plant yn adrodd yn gyson bod mannau awyr agored, strydoedd a chymdogaethau lleol yn bwysig iddyn nhw. Mae rhai plant yn disgrifio cerdded o gwmpas, treulio amser gyda ffrindiau, archwilio, creu cuddfannau a defnyddio strydoedd neu fannau agored fel rhan o'u chwarae bob dydd. Mae eraill yn disgrifio rhwystrau, fel traffig cyflym, teimlo eu bod mewn perygl, ceir wedi'u parcio, llwybrau anhygyrch a phryderon oedolion. Mae gan bolisi teithio llesol rôl uniongyrchol wrth leihau'r rhwystrau hyn.

Mae *Canllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol* Llywodraeth Cymru'n cyflwyno cyfle pwysig i feddwl am ryddid pob dydd plant i symud o amgylch eu cymunedau a gwneud y gorau o'u cyfleoedd i chwarae. Mae strydoedd croesawus a hygyrch yn helpu plant i gynnal cysylltiadau gyda'r mannau sy'n bwysig iddyn nhw. Maent yn creu hap-gyfleoedd ar gyfer chwarae a chysylltiadau cymdeithasol. Gall dwyn cynllunio ar gyfer chwarae a theithio llesol ynghyd gefnogi cymdogaethau iachach, mwy cynhwysol a mwy cysylltiedig ar gyfer plant.

Polisi chwarae rhyngwladol a chenedlaethol

Mae Erthygl 31 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn cydnabod hawl pob plentyn i orffwys, hamdden a chwarae. Mae gan blant hawl hefyd i fynegi eu barn ar faterion sy'n effeithio arnyn nhw. Mae'r hawliau hyn yn berthnasol i dir y cyhoedd yn ei gyfanrwydd – ac nid i feysydd chwarae dynodedig yn unig.

Fel arwydd o'r pwysigrwydd y mae'r Cenhedloedd Unedig yn ei osod ar chwarae plant fe gyhoeddodd Sylw Cyffredinol ar Erthygl 31. Mae hwn yn ddatganiad swyddogol sy'n ymhelaethu ar ystyr elfen o CCUHP sy'n galw am ddehongli neu bwyslais pellach. Mae'r Sylw Cyffredinol yn nodi y dylai plant gael: 'amgylchedd sy'n ddigon rhydd o … draffig a pheryglon ffisegol eraill i ganiatáu iddynt symud o gwmpas yn ddidrafferth a diogel yn eu cymdogaethau lleol'.

Mae'r Sylw Cyffredinol yn pwysleisio bod rhaid i gynllunio cyhoeddus roi blaenoriaeth i greu amgylcheddau sy'n hybu lles y plentyn. Er mwyn sicrhau'r amgylcheddau trefol a gwledig angenrheidiol sy'n gyfeillgar at blant, dylid ystyried:

'Mesurau traffig ffyrdd, yn cynnwys terfynau cyflymder, lefelau llygredd, croesfannau ysgolion, goleuadau traffig, a mesurau gostegu traffig i sicrhau hawliau plant i chwarae'n ddiogel'.

Yng Nghymru, mae adran 11 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i asesu a sicrhau cyfleoedd digonol i chwarae. Mae'r canllawiau statudol yn nodi 'wrth gynnal asesiadau ac wrth fynd ati i greu cymunedau lle gall plant chwarae, dylai awdurdodau lleol sicrhau bod plant yn gallu symud o gwmpas eu cymunedau i chwarae; eu bod yn gallu cerdded neu seiclo i fannau agored neu i ddarpariaeth chwarae neu hamdden; a'u bod yn gallu ymweld â'u teulu a'u cyfeillion neu fynd i'r ysgol, heb unrhyw berygl o niwed'.

Mae'r Asesiadau Digonolrwydd Chwarae (ADCh), a gwblheir gan bob awdurdod lleol, yn ystyried pob ffactor sy'n cyfrannu at fynediad plant i chwarae neu symud o gwmpas eu cymunedau, yn cynnwys:

- gostegu traffig
- strydoedd chwarae/cau ffyrdd dros dro
- llwybrau cerdded a beicio diogel
- darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus
- mannau a rennir
- parcio.

Dylid asesu'r ffactorau hyn am:

- y nifer o derfynau 20 milltir yr awr (mya) mewn ardaloedd preswyl, eu heffeithiolrwydd wrth ganiatáu i blant chwarae'r tu allan yn ddiogel a'r potensial ar gyfer cynyddu'r nifer o ardaloedd terfyn 20mya er mwyn hyrwyddo cyfleoedd chwarae.
- darpariaeth yr awdurdod lleol o lwybrau cerdded a beicio diogel a'r potensial ar gyfer cynyddu'r rhain. Dylai hyn alinio gyda'r cynigion sydd wedi eu rhestru yn Neddf Teithio Llesol (Cymru) 2013.
- bod prosesau ar gyfer trefnu cau ffyrdd dros dro yn syml a bod gwybodaeth ar hyn ar gael yn rhwydd.

Mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn mynnu y dylai awdurdodau lleol gynllunio a gwella rhwydweithiau ar gyfer cerdded a beicio a hyrwyddo siwrneiau teithio llesol. O'u hystyried ar y cyd, mae'r dyletswyddau hyn yn cynnig cyfle amlwg i gynllunio'n well ar gyfer plant. Dylai cynllunio ar gyfer trafnidiaeth a chwarae helpu plant i symud o gwmpas, cwrdd ag eraill a chwarae'n agos i'w cartref. Felly, bydd agwedd gyfeillgar at chwarae, sydd o ganlyniad yn gyfeillgar at blant, yn gwirio nid yn unig os yw llwybr yn cyflawni safon dechnegol, ond hefyd os gall plant ei ddefnyddio'n hyderus.

Yr hyn fydd plant yn ei elwa oddi wrth agwedd 'Chwarae ar y Ffordd'

- **Mwy o ryddid ac annibyniaeth:** gall llwybrau diogel a hawdd i'w llywio ehangu'r ardal y gall plant ei harchwilio a'i defnyddio.
- **Gweithgarwch corfforol bob dydd:** bydd cerdded, olwyno, beicio, rowlio a chwarae ar y ffordd yn ymgorffori symud yn naturiol fel rhan o fywyd bob dydd.
- **Cysylltiad a pherthyn:** bydd plant yn cwrdd â ffrindiau, cymdogion ac oedolion cyfarwydd, gan eu helpu i deimlo'n rhan o'u cymdogaeth.
- **Hyder a gwydnwch:** mae llywio llwybrau lleol, gwneud dewisiadau ac ymateb i heriau hydrin yn cefnogi hyder a meistrolaeth.
- **Mynediad i chwarae:** mae llwybrau cysylltiedig yn ei gwneud hi'n haws i gyrraedd parciau, mannau agored, ysgolion, cyfleusterau cymunedol a mannau anffurfiol i chwarae.
- **Amgylchedd iachach:** gall lleihau uchafiaeth traffig wella ansawdd aer, lleihau sŵn a gwneud strydoedd yn fwy dymunol i bawb.

Beth fydd yn tarfu ar hyn?

Mae gallu plant i deithio'n llesol yn cael ei lunio gan fwy na dim ond seilwaith. Fel y mae *Canllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol* yn nodi, fe wnaeth Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae ystyried rhwystrau cyffredin:

- traffig yn goryrru, lefelau uchel o draffig a chroesfannau peryglus neu anghyfleus
- llwybrau digyswllt sy'n stopio cyn cyrraedd ysgolion, mannau chwarae neu gyrchfannau mewn cymdogaethau
- parcio ar balmentydd, goleuo gwael, llystyfiant wedi gordyfu ac arwynebau anwastad
- llwybrau sydd ddim yn gweithio ar gyfer plant anabl, pobl sy'n defnyddio cadair olwyn neu deuluoedd sy'n defnyddio bygis
- ofn traffig, pobl ddieithr neu feirniadaeth o blant yn treulio amser mewn mannau cyhoeddus
- amserlenni wedi'u pennu gan oedolion sy'n gadael fawr ddim amser i oedi, archwilio neu chwarae
- ffocws ar y daith i'r ysgol yn unig, yn hytrach na'r amrediad llawn o siwrneiau y bydd plant yn eu gwneud
- cyfranogiad cyfyngedig plant ac arddegwyr mewn penderfyniadau sy'n ymwneud â thrafnidiaeth a chreu lleoedd.

Ystyriaethau ar gyfer creu teithio llesol cyfeillgar at chwarae

Er mwyn gwneud teithio llesol yn fwy cyfeillgar at chwarae, dylai'r rheini sy'n cynllunio a throsglwyddo cynlluniau ofyn sut y bydd cynigion yn gwella mynediad bob dydd plant i'r mannau a'r bobl sy'n cefnogi eu chwarae. Mae hyn yn cynnwys ysgolion, parciau, darpariaeth gwaith chwarae wedi ei staffio, gofal plant, llyfrgelloedd, canolfannau cymunedol, cartrefi ffrindiau, strydoedd, gofodau gwyrdd a mannau anffurfiol ble bydd plant yn ymgynnull.

- Defnyddio Asesiadau Digonolrwydd Chwarae a thystiolaeth o ymgysylltu â phlant wrth ddatblygu Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol a blaenoriaethu buddsoddi. Dyma ambell awgrym:
  - Defnyddio ADCh lleol a chynlluniau gweithredu i ddynodi ble mae traffig, croesfannau gwael, llwybrau digyswllt neu fannau anhygyrch yn cyfyngu ar chwarae plant.
  - Gweithio gyda phartneriaid i gynnwys plant ac arddegwyr mewn penderfyniadau ynghylch llwybrau teithio llesol, strydoedd ysgolion, croesfannau, rheoli cyflymder, goleuo a mannau cyhoeddus.
- Cydnabod strydoedd fel mannau cymdeithasol yn ogystal â choridorau ar gyfer symud, yn enwedig mewn cymunedau sydd â mynediad cyfyngedig i erddi neu ardaloedd chwarae ffurfiol.
- Sicrhau bod llwybrau'n gynhwysol ar gyfer plant anabl, plant iau, arddegwyr, rhieni, gofalwyr, bygis, cadeiriau olwyn a chymhorthion symudedd.
- Cefnogi ymyriadau megis amgylcheddau cyflymder arafach, strydoedd ysgolion, hydreiddedd hidledig, llwybrau cerdded chwareus, cau strydoedd dros dro a mynediad i diroedd ysgol y tu allan i oriau addysgu.
- Gweithio ar draws adrannau fel bod buddsoddi mewn trafnidiaeth yn cyfrannu hefyd at ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae, iechyd y cyhoedd, cydlyniant cymunedol, gweithredu ar newid hinsawdd a hawliau plant.

Creu teithio llesol sy'n gyfeillgar at chwarae

Mae'r adran chwarae o bennod Creu Lleoedd *Canllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol* yn cadarnhau bod cerdded, olwyno a beicio yn rhan annatod o greu mannau cynhwysol, hygyrch a chysylltiedig yn hytrach nac fel opsiynau trafnidiaeth annibynnol. Mae'r egwyddorion isod yn cymhwyso'r dull seiliedig ar leoliad hwnnw trwy lens chwarae a hawliau plant.

Dechreuwch gyda bywydau bob dydd plant

Mapiwch y siwrneiau y bydd plant yn eu gwneud mewn gwirionedd – i'r ysgol, at ffrindiau, teulu, siopau, parciau, chwaraeon, darpariaeth ieuenctid a mannau cwrdd anffurfiol. Cofiwch gynnwys gyda'r nos, y penwythnos a gwyliau'r ysgol, a chydnabod y gallai plant ddewis llwybrau amrywiol neu chwareus yn hytrach na'r llwybr byrraf.

Dyluniwch rwydweithiau cysylltiedig, nid cynlluniau ynysig

Dylai llwybrau gysylltu cartrefi gyda'r mannau y mae plant yn eu trysori. Gall croesfannau diogel, strydoedd traffig isel a chysylltiadau trwy leiniau gwyrdd wneud y gwahaniaeth rhwng llwybr sy'n bodoli ar fap ac un y gall plant ei ddefnyddio mewn gwirionedd.

Gwnewch gynhwysiant yn hanfodol

Dylech gynnwys plant anabl a'u teuluoedd o'r cychwyn cyntaf. Cofiwch ystyried graddiant, lled, arwyneb, gorffwysfannau, gwybodaeth gyffyrddadwy, anghenion synhwyraidd a'r rhyngweithiad rhwng pobl sy'n cerdded, olwyno a beicio. Dylech osgoi cynlluniau sy'n creu rhwystrau newydd.

Caniatewch amser a lle i oedi

Mae plant angen mannau i aros, eistedd, siarad, gwylio a chwarae. Gall plannu, newidiadau mewn lefel, nodweddion naturiol, celfi stryd cadarn ac ardaloedd bychan o ofod agored ychwanegu diddordeb a gwerth chwarae heb bennu sut y dylid eu defnyddio.

Cwtogwch berygl traffig wrth lygad y ffynnon

Mae cyflymder is, llai o gerbydau'n symud, llinellau gweld clir a chroesfannau cyfleus yn cefnogi rhyddid plant yn fwy effeithlon na disgwyl i blant ymdopi gydag amodau peryglus. Gall Strydoedd Ysgol a dulliau rheoli traffig eraill helpu pan gânt eu cynllunio mewn modd cynhwysol a'u monitro'n ofalus.

Tarwch gydbwysedd rhwng budd a risg

Ni ddylai dylunio da ddileu pob her neu ansicrwydd. Bydd plant yn cael budd o amcangyfrif cyflymder, pellter a symudiad mewn amgylcheddau ble mae perygl difrifol wedi ei leihau. Mae agwedd gytbwys yn amddiffyn plant tra'n parchu eu hannibyniaeth gynyddol.

Gwrandewch ar y plant

Mae plant yn arbenigwyr ar sut y mae eu cymdogaethau'n teimlo ac yn gweithredu iddyn nhw a'u cyfleoedd i chwarae. Dylai ymgysylltu fod yn hygyrch, yn greadigol ac yn gysylltiedig â phenderfyniadau go iawn. Mae dulliau defnyddiol yn cynnwys teithiau cerdded neu feicio yng nghwmni'r plant, mapio llwybrau, ffotograffiaeth, creu modelau, archwiliadau stryd a gweithgareddau dros dro mewn mannau y mae'r plant yn eu defnyddio eisoes.

Gofynnwch i'r plant ble maen nhw'n mynd, ble maen nhw'n ei osgoi, ble maen nhw'n cwrdd â ffrindiau, beth sy'n eu harafu a beth fyddai'n eu helpu i deimlo bod mwy o groeso iddyn nhw. Cofiwch gynnwys plant o wahanol oedrannau a chefndiroedd, plant anabl, plant sydd ddim yn teithio'n llesol ar hyn o bryd a'r rheini sy'n byw mewn cymunedau gwledig neu rai sy'n cael eu rheoli gan draffig.

Fydd yr ymgysylltiad ddim yn gyflawn tan i'r plant glywed beth ddigwyddodd nesaf. Dylai penderfynwyr egluro'r hyn fydd yn newid, beth fydd ddim yn gallu newid a pham.

Strydoedd chwarae: creu lle ar riniog y drws

Mae adran chwarae *Canllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol* hefyd yn trafod strydoedd chwarae. Mae strydoedd chwarae – a elwir weithiau'n chwarae stryd – yn cyfyngu ar draffig trwodd dros dro ar stryd breswyl er mwyn i blant allu chwarae'n rhydd yn agos i'w cartrefi. Bydd stiwardiaid gwirfoddol yn rheoli'r mannau ble mae'r stryd wedi ei chau, tra caiff trigolion sydd angen mynediad i'r stryd yn cael eu harwain i mewn neu allan yn araf deg pan fo'r stryd yn glir. Bydd rhieni a gofalwyr yn dal i fod yn gyfrifol am eu plant eu hunain ac mae'r pwyslais ar chwarae rhydd, anffurfiol yn hytrach na gweithgareddau wedi eu trefnu.

Gall strydoedd chwarae helpu plant i fod yn fwy bywiog, cynyddu eu hyder a dod i adnabod eu cymdogaeth. Gallant hefyd helpu oedolion i gwrdd â'u cymdogion, cryfhau cysylltiadau cymunedol ac arddangos sut gall strydoedd weithredu pan fydd pobl, yn hytrach na thraffig, yn cael blaenoriaeth.

Er nad yw stryd chwarae dros dro yn llwybr teithio llesol, gall gefnogi'r un uchelgais cyffredinol: cymdogaethau mwy diogel, mwy croesawus ble gall plant gerdded, olwyno, beicio, cwrdd a chwarae. Gall hefyd gynnig ffordd ymarferol i drigolion a phenderfynwyr brofi stryd traffig isel a chynyddu cefnogaeth ar gyfer newid tymor hirach.

Gwneud strydoedd chwarae'n haws i'w trefnu

Gall awdurdodau lleol alluogi strydoedd chwarae dan arweiniad trigolion trwy fabwysiadu polisi clir, cynnig proses ymgeisio syml a hygyrch a chydlynu timau priffyrdd, chwarae, tai, iechyd y cyhoedd a thimau cymunedol. Gallai cymorth ymarferol gynnwys arwyddion a rhwystrau y gellir eu hailddefnyddio, canllawiau eglur ar gyfer stiwardiaid, cymorth i gyfathrebu gyda chymdogion a chyfleoedd i dreialu sesiwn cyn ymrwymo i raglen reolaidd.

Dylai prosesau fod yn gymesur a chynhwysol. Dylai awdurdodau ystyried sut gall plant a theuluoedd sy'n byw mewn fflatiau, ar ffyrdd prysurach neu mewn cymunedau heb rwydwaith trigolion sefydlog elwa hefyd. Dylai strydoedd chwarae gyfannu – ond nid disodli – gwaith tymor hir i leihau perygl traffig a chreu cymdogaethau sy'n hygyrch bob amser ac sy'n gyfeillgar at blant.

Adnoddau i gefnogi polisïau strydoedd chwarae

- **Agor strydoedd ar gyfer chwarae** – pecyn cymorth Chwarae Cymru ar gyfer awdurdodau lleol a phartneriaid yng Nghymru, gyda thempledi a dulliau ymarferol i gefnogi chwarae stryd wedi ei arwain gan drigolion.
- **Sut i drefnu sesiynau chwarae'r tu allan ar dy stryd** – llawlyfr Chwarae Cymru a deunyddiau ategol ar gyfer rhieni a thrigolion.

Canolbwyntio ar y daith

Mae teithio llesol cyfeillgar at chwarae'n creu mannau ble gall plant fod yn fywiog, creu perthnasoedd a theimlo eu bod yn perthyn. Gall amgylcheddau teithio llesol a gynlluniwyd yn fedrus gefnogi plentyndod chwareus, cymdeithasol ac iach. Mae strydoedd arafach, croesfannau diogel, llwybrau cerdded ac olwyno uniongyrchol, llwybrau hygyrch, seilwaith gwyrdd a mannau cyhoeddus croesawus i gyd yn helpu plant a theuluoedd i deimlo bod eu cymdogaeth yn perthyn iddyn nhw.

Chwarae Cymru
Play Wales

www.chwarae.cymru

Elusen gofrestredig, rhif 1068926 © Chwarae Cymru Tachwedd 2026